

Cynllun Ceir Cefn Gwlad Sir Gaerfyrddin

Ceir Cefn Gwlad yw gwasanaeth ceir cymdeithasol gwirfoddol Sir Gâr.

Mae'n cynnwys 12 o gynlluniau rhannu ceir annibynnol lle mae cymunedau'n trefnu bod gyrwyr gwirfoddol yn roi lifft i bobl na fyddent fel arall yn gallu mynd ar deithiau hollbwysig.



Lluniwyd cynllun Ceir Cefn Gwlad yn gynllun wrth gefn i'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus, gan ddarparu cysylltiadau â bysiau, trenau neu wasanaeth cludo o ddrws i ddrws pan fo angen, i ateb anghenion unigol ac achlysurol.

Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio ar gyfer ardaloedd gwledig lle nad oes gwasanaeth bysiau rheolaidd, ond mae'n darparu hefyd ar gyfer y rheiny sy'n methu, yn gorfforol, â defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae angen yr olaf mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Mae pob taith gan deithiwr yn cael ei drefnu'n bersonol yn y gymuned er mwyn osgoi caledi i'r teithiwr. Ar wahân i ddarparu cludiant, mae'r cynlluniau yn aml yn hybu ysbryd cymdogol trwy ddod â threfnwyr, gyrwyr a theithwyr i gyswllt â'i gilydd.

Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng y Cyngor Sir a'r RVS. Cyngor Sir Gâr sy'n talu treuliau'r gwirfoddolwyr ac yn darparu canllawiau polisi a chymorth gweinyddol. Yr RVS sy'n recriwtio gwirfoddolwyr lleol ac yn eu hyfforddi i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae'r Cyngor Sir yn talu'r rhan fwyaf o'r gost er mwyn cynnig yr un cyfleoedd ag sydd ar gael i deithwyr eraill ac nid yw'r teithwyr yn talu llawer mwy na phris tocyn bws am daith gyffelyb; ond heb yr amser sy'n cael ei roi yn rhydd gan y trefnwyr a'r gyrwyr, byddai gwasanaeth o'r fath yn amhosibl.

Allaf I Ddefnyddio'r Gwasanaeth?

Ydych chi erioed wedi bod heb lifft? Hwyrach bod angen mynd i weld y meddyg arnoch a dim car ar gael gartref a dim gwasanaeth bws yn gyfleus., neu eich bod am fynd i weld perthynas yn yr ysbyty. Beth am bobl oeddrannus sy'n gorfod mynd allan i siopa ond heb fod yn gadarn ar eu traed, yn enwedig yn y gaeaf?

Efallai bod grwp o bobl yn angen iddynt fynd i weld person trin traed bob mis. Neu fam sy'n gorfod mynd â baban i'r clinig. Efallai eich bod yn rhy sâl i fentro allan o'r ty^ ond eisiau rhywun i godi presgripsiwn i chi. Efallai eich bod chi hyd yn oed yn gallu gyrru car ond bod y car ar stop a chithau'n gorfod gwneud taith bwysig. Mae'r rhain i gyd yn deithiau y gellir eu gwneud trwy Geir Cefn Gwlad.

Fe allwch chi ei ddefnyddio, ar yr amod bod eich taith yn hanfodol ac nad oes gennych unrhyw fodd rhesymol arall o wneud y daith. Ni all Ceir Cefn Gwlad gystadlu â mathau eraill o gludiant, yn enwedig gwasanaethau bws, tacsï a thrên lleol a chludiant a ddarperir gan gyrff eraill megis Gwasanaeth Gofal Cleifion y Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Os ydych chi'n gymwys neu'n gallu defnyddio'r gwasanaethau hyn yna ni fyddwch yn cael defnyddio'r gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad.

Sut Mae'n Gweithio?

Mae'r system yn syml iawn. Mae rhywun sydd angen lifft yn ffonio rhif y trefnydd ardal sy'n cael ei hysbysebu ac yn rhoi manylion ynghylch pryd a ble y mae angen y cludiant. Mae'n rhaid cael 24 awr o rybudd heblaw mewn argyfwng. Os yw'r daith yn gymwys ar gyfer y cynllun, mae'r trefnydd ardal yn cysylltu â'r gyrwyr, hyd nes iddo ddod o hyd i rywun sy'n gallu helpu. Mae'r gyrrwr yn mynd ar y daith gan nodi cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd er mwyn hawlio costau oddi wrth y Cyngor Sir.

Mae'r teithwyr yn gwneud cyfraniad yn seiliedig ar y milltiroedd y maent yn eu teithio ac mae'r gyrrwr, sy'n gweithredu fel asiant i'r Cyngor Sir yn rhoi derbynneb iddynt. Mae modd defnyddio Tocynnau Teithio Rhad ar deithiau Ceir Cefn Gwlad. Os oes modd gwneud rhan o'r daith ar gludiant cyhoeddus mae Ceir Cefn Gwlad yn mynd â'r teithiwr i'r bws neu'r trên agosaf. Os nad yw'r gyrrwr yn gallu casglu'r teithiwr ar gyfer y daith adref trefnir bod gyrrwr arall yn gwneud y rhan honno o'r daith.

Mae cyngor a chymorth ar gael gan drefnydd y cynllun, Swyddfa Canolbwynt Sir Gâr yr RVS a'r Cyngor Sir.

Allaf I Helpu?

Mae gwirfoddolwyr cynllun Ceir Cefn Gwlad Sir Gâr yn helpu i ddarparu gwasanaeth hanfodol bwysig i lawer o bobl unig ac agored i niwed. Rydym yn chwilio am yrwyr sy'n fodlon defnyddio'u ceir eu hunain neu drefnwyr sy'n gallu gweithio gartref.

Os ydych chi'n gallu gyrru ac os oes car gennych, byddem yn falch iawn o gael cymorth gennych. Mae rhai pobl yn mynd ar deithiau sawl gwaith yr wythnos yn ystod y dydd, ac eraill yn mynd llai nag unwaith y mis, hwyrach yn y nos. Ni fyddai unrhyw orfodaeth arnoch i roi mwy o'ch amser nag yr ydych yn dymuno gwneud. Ni fyddai byth gofyn i chi yrru heb llai na 24 awr o rybudd heblaw mewn argyfwng.

Os ydych chi eisiau helpu ond ddim yn dymuno gyrru yna efallai y byddech yn barod i fod yn drefnydd ardal. Mae modd gwneud hyn o'ch cartref yn hawdd. Dyma'r rôl fwyaf heriol yn y cynllun o bosibl gan y bydd angen i chi asesu a yw'r sawl sy'n galw yn gymwys i ddefnyddio'r cynllun ac weithiau mae hynny'n golygu gwrthod cais.

Os ydych yn gallu rhoi o'ch amser, bydd y Cyngor, yn gyfnewid, yn talu eich treuliau. Gan ymuno â'r RVS, bydd hynny'n sicrhau bod gennych yswiriant ar gyfer damweiniau personol, bod eich bonws am beidio â hawlio'n cael ei ddiogelu a bod yr hyn sydd dros ben yn cael ei dalu pan fyddwch ar deithiau Ceir Cefn Gwlad. Mae'r RVS yn agored i bawbac mae mwy na 130 o aelodau yn Sir Gâr ar hyn o bryd.

Pwy Sy'n Ei Drefnu?

Mae Ceir Cefn Gwlad yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr o gymunedau lleol a Chyngor Sir Gâr sy'n talu amdano. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn darparu canllawiau polisi a chymorth gweinyddol ar gyfer y cynllun.

Mae'r gwaith o drefnu'r gwirfoddolwyr yn cael ei wneud gan RVS sy'n recriwtio aelodau newydd. Mae'r RVS yn un o wasanaethau gwirfoddol y Goron ac mae'n cynnwys dynion a menywod sy'n dymuno gwasanaethu eu cymunedau lleol ac nid oes unrhyw dâl ymaelodi.

Mae'r ffaith bod RVS ynghlwm wrth y cynllun yn golygu bod modd sicrhau cynllun parhaol sy'n gallu cynnal cronfa o wirfoddolwyr ac yn gallu rhoi cymorth a chyngor i aelodau.

Ni fyddai modd darparu'r cynllun Ceir Cefn Gwlad heb gyfraniad amhrisiadwy pob gwirfoddolwr. Dros y blynyddoedd, mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad i'r cynllun wedi bod yn gymorth gwerthfawr i rai miloedd o bobl. Ni fyddai'r gwasanaeth yn bodoli heb y cymorth hwn.

Cymhwysedd

Canllaw cychwynnol yw'r rhestr ganlynol i helpu unigolyn i benderfynu a yw'n gymwys i ddefnyddio Ceir Cefn Gwlad:

- A oes unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus y gallech ei defnyddio ar gyfer y daith gyfan neu ran ohoni?
- A oes gennych fynediad i unrhyw drafnidiaeth breifat? (e.e. car gan rywun ar yr aelwyd)
- A oes modd ichi newid amser y daith fel ei bod yn bosibl ichi ddefnyddio rhyw fath arall o drafnidiaeth? e.e. trafnidiaeth gyhoeddus
- A oes modd ichi ddefnyddio'r gwasanaeth car ambiwlans?
- A ydych yn un o gleientiaid Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Caerfyrddin ac yn mynd i'r Ganolfan Ddydd?
- A fyddai'n ymarferol ichi logi tacsï ar gyfer y daith?
- A fyddai'n rhesymol ichi osgoi'r daith?

Os taw OES / YDW / BYDDAI yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, fel arfer ni fydd yr unigolyn yn gymwys.

Os hoffech wirfoddoli â Cheir Cefn Gwlad, neu os ydych yn dymuno cael gwybodaeth am eich cynllun lleol, cysylltwch â'r canlynol:



Swyddfa Canolbwynt Sir Gâr:

Swyddfa RVS
Neuadd Goffa
Heol Caerfyrddin
Cross Hands
LLANELLI
SA14 6RN
Ffôn: 01269 843819

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill cysylltwch â'r canlynol:

Cyngor Sir Gâr:

Uned Drafnidiaeth Teithwyr
Adran Gwasanaethau Technegol
Parc Myrddin
Caerfyrddin
SA31 1HQ
Ffôn: 01267 234567